# CYNGOR CYMUNED *LLANWINIO* COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 19eg o Fedi 2017 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng R Gallie, D Lewis, G Evans, W Evans, J Phillips, P Walton, J Lewis (CSC) a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng H James

Hefyd yn bresennol oedd Ms L Agoust, Mr D Crawford-Cummings, Mrs C Ault

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 18fed o Orffennaf a derbyniwyd yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:**

Cyng R Gallie – Eitem 8 Trysorydd Cymdeithas Cymunedol Llanwinio – cais am gymorth ariannol

Cyng W Evans – Eitem 8 Y Cardi Bach – cais am gymorth ariannol

Cyng J Lewis (CSC) – Eitem 8 – Is-lywydd CFfI Sir Gâr – cais am gymorth ariannol

Cyng J Lewis (CSC) – Eitem 11 – Aelod o bwyllgor cynllunio CSC

**MATERION YN CODI:**

Cafwyd amcan bris am lanhau'r gofgolon rhyfel ym mynwent Llanwinio. Penderfynodd y cynghorwyr i roddi y mater i'r naill ochr dros dro.

Fe fydd cist halen newydd yn cael ei osod  uwchben Swn-y-Sien pan fydd rhai ar gael.

CSC i gysyltu efo'r tirfeddiannwr ynglyn a thorri coed n'ol rhwng y tro uchaf a'r tro isaf ar yr heol o Maesygrove i Gwmbach.

Cafodd y galw am CSC i lanhau'r afon a'r ffosydd yn arwain i lawr at Cwmbach ei atgyfnerthu yn dilyn cyfnod o law trwm a achosodd i ddwr fynd i mewn i dŷ yng Nghwmbach. Derbyniwyd llythyr a lluniau o'r broblem gan y Cyngor Cymuned oddi wrth berchnogion y Post House, Cwmbach. Clerc i gyflwyno'r gwybodaeth i CSC. Dywedodd Cyng J Lewis (CSC) y byddai'n cysylltu a swyddogion i geisio dadrus y broblem.

Roedd y Cyngor Cymuned hefyd yn ymwybodol o broblem llifogydd ym Mlaenwaun a Chwmfelin Mynach. Clerc i hysbysu CSC o'r problemau hyn hefyd.

Penderfynodd y Cyngor i dderbyn cynnig o £30 oddi wrth un o drigolion Cwmfeli Mynach am hen goffor y cyngor.

**ADRODDIAD YR ARCHWILIWR:**

Mae adroddiad yr archwiliwr allanol wedi ei dderbyn ac roedd popeth yn dderbyniol efo dim materion/sylwadau wedi ei codi. Derbyniodd y Cyngor yr adroddiad a'i gymeradwyo.

**RHEOLAU SEFYDLOG:**

Gwnaeth y Cyngor gymeradwyo y Rheolau Sefydlog.

**COFRESTRU TIR:**

Trafododd y Cyngor y posibilrwydd o gofrestru y tir a enwir Rhos (Comin) Llanwinio. Penderfynwyd i beidio symud ymlaen ar hyn o bryd ond i adolygu'r sefyllfa yn achlysurol

**GOHEBIAETH:**

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Cymdeithas Gymunedol Llanwinio tuag at brynu cae chwarae Blaenwaun sydd ar werth. (Datganodd Cyng R Gallie ddiddordeb, arwyddodd y ffurflen ddatganu a chymerodd ddim rhan yn y drafodaeth). Yn dilyn trafodaeth hir penderfynwyd cyfrannu £5000.00 tuag at y pryniant.

Derbyniwyd ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth CFfI Sir Gâr a'r Cardi Bach. (Fe ddatganodd Cyng J Lewis (CSC) a Cyng W Evans ddiddordeb a chymeront ddim rhan yn y drafodaeth.) Penderfynwyd gohirio y rhain ac unrhyw geisiadau ariannol yn y dyfodol tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Hysbysodd AON UK ei bod wedi penderfynnu peidio cynnig yswiriant i gynghorau lleol i'r dyfodol a ni fyddent yn cynnig adnewyddiad y flwyddyn nesaf. Fe fyddai cynnig i adnewyddu yn dod oddi wrth BHIB yn ei lle.

Derbyniwyd gydnabyddiaeth o ddatganiad o gydsynio oddi wrth yr Rheolydd Pensiwn o dan y Ddeddf Pensiwn 2008.

Danfonodd Un Llais Cymru (Rhanbarth Sir Gâr) gopiiau o gofnodion eu CCB a chyfarfod cyffredinol a gynhaliwyd ym Mehefi 2017 a'r agenda ar gyfer eu cyfarfod nesaf ar 04/10/17.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| CSC – 2il randaliad o'r praesept | £2000.00 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| Dŵr Cymru – cae chwarae Blaenwaun (14/01/17 -27/06/17) | £13.85 |
| SSE – trydan neuadd gymunedol (27/04/17 – 25/07/17) | £115.26 |
| Vision ICT – cefnogi'r wefan a chymorth (06/17 – 05/18) | £300.00 |
| D Malley – gwsanaeth cyflogres (04/17 – 09/17) | £30.88 |
| E Harris – llythyr cyfreithiwr | £720.00 |

**CYNLLUNIO:**

(Cyn trafod y cais cynllunio fe wnaeth Cyng J Lewis (CSC) ddatgan diddordeb a gadael yr ysyafell)

W/35882 – Estyniad i greu ychwanegiad i adeilad sy'n bodoli yn Goitre Isaf, Meidrim – CYNLLUNIO LLAWN

W/35930 – I godi ysgubor amaethyddol dosbarth 2 ar gyfer gweithdy, garej, ystorfa a defnydd personol yn Toriad y Wawr, Blaenwaun – CYNLLUNIO LLAWN.

**PROSIECT HAWLIAU FFORDD LLANWINIO:**

Cafodd y Cyngor olwg o ddiweddariad Gorffennaf Ms Agoust at CSC.

Hsbysodd Cyng J Phillips y Cyngor fod pont wedi ei chodi dros yr afon yn Felindre.

Hysbysodd Ms Agoust y Cyngor fod gwaith yn mynd ymlaen ar y llwybrau roedd hi wedi rhoddi ar sylw ar CSC.

Clerc i gysylltu a CSC am ddiweddariad.

**U.F.A.**

Clerc i gysylltu a CSC ynglyn a glanhau ffosydd o fewn y plwyf.

Cinio Nadolig – y lleoliadau a awgrymwyd oedd y Nag's Head, Abercych a'r Emlyn Arms, Castell Newydd Emlyn efo Sadwrn 20fed neu 27ain fel dyddiadau posibl.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganodd y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar nos Fawrth 21ain o Dachwedd am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**